

## Teitl y Rôl: GORUCHWYLIWR DOMESTIG

### CYFATHREBU

#### Cyfathrebu Llafar:

Derbyn, deall a throsgwlyddo gwybodaeth uniongyrchol mewn dull clir a chywir yn aml.

Derbyn, deall a throsgwlyddo gwybodaeth sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosgwlyddo'r wybodaeth i eraill yn achlysurol.

#### Cyfathrebu ysgrifenedig neu electronig a chyfryngau gweledol:

Derbyn, deall a throsgwlyddo gwybodaeth uniongyrchol mewn dull clir a chywir yn achlysurol.

### GWAITH TÎM A CHYMHELLIANT

#### Gofynnion goblygedig

Cyfranogi a chyflwyno cyfraniad i dîm.

#### Prif ffocws

Cefnogi ac annog eraill yn y tîm; helpu i adeiladu cydweithrediad drwy osod esiampl a dangos agwedd hyblyg at gyflawni canlyniadau tîm; a chyfrannu i adeiladu ysbryd y tîm fel aelod gweithgar o'r tîm.

#### Ffocws eilaidd

Yn achlysurol, egluro gofynion; cytuno amcanion tasg clir; trefnu a dirprwyo gwaith yn deg yn ôl galluedd unigol; helpu'r tîm i ganolbwyntio eu hymdrechion ar y dasg dan sylw a chymell aelodau unigol o'r tîm.

### CYSWLLT A RHWYDWEITHIO

Cysylltu yn ddyddiol gan ddefnyddio gweithdrefnau sy'n bodoli er mwyn throsgwlyddo gwybodaeth yn ddiymdroi; sicrhau bod pobl yn derbyn gwybodaeth er mwyn sicrhau cyd-drefnu ymdrech a chyflawni'r gwaith yn effeithlon.

### DARPARU GWASANAETH

#### Prif ffocws

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol sy'n gofyn am wasanaeth neu sy'n ceisio gwybodaeth; creu delwedd gadarnhaol o'r sefydliad drwy fod yn ymatebol ac yn gyflym wrth ymateb i geisiadau a chyfeirio'r defnyddiwr at y person cywir os oes angen. Y cwsmer sydd fel arfer yn cychwyn y cyswllt, ac yw fel arfer yn cynnwys tasgau rheolaidd sydd â safonau neu weithdrefnau gosodedig.

## **PROSESAU A CHANLYNIADAU PENDERFYNU**

Gwneud penderfyniadau annibynnol sydd â dylanwad uniongyrchol, gellir eu newid yn hawdd ac sydd ag ychydig effaith tu hwnt i man gwaith uniongyrchol deilydd y swydd.

Bod â rhan mewn rhai penderfyniadau cydweithredol; gweithio gydag eraill i gyrraedd y canlyniad gorau sydd â dylanwad uniongyrchol, gellir eu newid yn hawdd ac sydd ag ychydig effaith tu hwnt i man gwaith uniongyrchol deilydd y swydd.

## **CYNLLUNIO A THREFNU ADNODDAU**

### **Prif ffocws**

Cwblhau tasgau i gynllun gosodedig, gydag adnoddau sydd wedi'u clustnodi.

### **Ffocws eilaidd**

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith neu adnoddau ei hun i gyflawni amcanion a gytunwyd.

### **Ffocws eilaidd**

Yn achlysurol, cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith neu adnoddau ei hun ac eraill o fewn ei m(f)aes ei hun yn ddyddiol, yn wythnosol neu yn fisol; cynllunio a rheoli prosiectau bach, gan sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau; derbyn gwybodaeth gan a chyflenwi gwybodaeth i bobl eraill er mwyn cwblhau cynllunio; a monitro cynnydd yn erbyn y cynllun.

## **MENTER A DATRYS PROBLEMAU**

### **Prif ffocws**

Datrys problemau syml dydd-i-ddydd wrth iddynt godi; dewis rhwng nifer cyfyngedig o opsiynau sydd â chanlyniadau clir, drwy ddilyn canllawiau neu gyfeirio at yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn flaenorol; a gwybod pryd y dylid cyfeirio problem at bobl eraill.

## **DADANSODDI AC YMCHWIL**

### **Prif ffocws**

Sefydlu ffeithiau sylfaenol mewn sefyllfaoedd sydd yn gofyn am ragor o ymchwil a hysbysu eraill os oes angen.

## **GOFYNION SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL**

Ymgymryd â thasgau ar lefel a fyddai'n gofyn naill ai am ddysgu rhai dulliau penodol neu a fyddai'n cynnwys ymdrech corfforol cymedrol.

## **AMGYLCHEDD GWAITH**

### **Prif ffocws**

Gweithio mewn amgylchedd sy'n gymharol sefydlog ac nad yw'n effeithio llawer ar ddeilydd y swydd na'r ffordd y mae'r gwaith yn cael ei gwblhau.

### **Ffocws Eilaidd**

Yn achlysurol, deall sut y gallai'r amgylchedd gwaith gael effaith ar ei (g)waith ei hun neu waith cydweithwyr; cymryd camau safonol, o fewn canllawiau iechyd a diogelwch lle bo'n gymwys, i addasu i'r amgylchedd.

### **GOFAL A LLES BUGEILIOL**

Yn achlysurol, dangos sensitifrwydd i'r rheiny y gall fod angen help arnynt, neu mewn achosion eithafol, sy'n dangos arwyddion o drallod amlwg; a chymryd camau priodol drwy gysylltu â'r bobl berthnasol.

### **DATBLYGU TÎM**

Cynghori neu arwain dechreuwyr newydd yn gweithio yn yr un rôl neu uned ar wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

### **CEFNOGAETH ADDYSGU A DYSGU**

Nid yw hyn yn ofyniad o'r rôl.

### **GWYBODAETH A PHROFIAD**

Bod yn ymwybodol o egwyddorion ac arferion sylfaenol; bod â dealltwriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei (g)waith ei hun a chael ei (g)oruchwylio neu weithio'n agos â chydweithwyr y gall troi atynt am gymorth.

